

DEFNYDDIO DATGANIADAU ATEBOLRWYDD

Mae'r Datganiadau Atebolrwydd yn gyfres o gwestiynau sy'n gwahodd yr ymatebydd i ystyried beth mae'n ei wneud ac yn ei ddysgu mewn maes penodol. Mae'r Datganiadau Atebolrwydd wedi'u strwythuro o amgylch y chwe datganiad o fwriad strategol o Strategaeth Chwaraeon Cymru:



01 BOD YN BERSON GANOLOG

Sut ydych chi'n sicrhau bod anghenion a chymhelliant yr unigolyn yn arwain y cyflawni, boed wrth ddechrau arni, anelu am gynnydd neu geisio am ragoriaeth ar lwyfan y byd?

02 RHOI CYCHWYN GWYCH I BOB PERSON IFANC

Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod pobl ifanc yn cael sgiliau, hyder a chymhelliant i alluogi iddynt fwynhau a gwneud cynnydd drwy chwaraeon? Ydych chi'n gallu dangos sut mae gweithgarwch yn y maes hwn yn rhoi'r sylfeini i gyfranogwyr fyw bywydau iach, actif a chyfoethog?

03 SICRHAU BOD PAWB YN CAEL CYFLE I FOD YN ACTIF DRWY CHWARAEON

I ba raddau ydych chi'n gallu cynnig cyfleoedd cynhwysol a sut ydych chi'n gwybod bod y rhain yn darparu profiad gwyh i'r rhai cysylltiedig?

04 DOD Â PHOBL AT EI GILYDD YN Y TYMOR HIR

Ym mha ffyrdd ydych chi wedi defnyddio gwybodaeth a dysg i gydweithredu ag eraill ac i sicrhau bod profiadau unigolion o chwaraeon yn dod yn fwy cynaliadwy ac yn fwy llwyddiannus?

05 ARDDANGOS MANTEISION CHWARAEON

Fedrwch chi ddisgrifio sut mae eich tystiolaeth yn arddangos ac yn dathlu manteision chwaraeon?

06 BOD YN SEFYDLIAD O WERTH UCHEL

Sut mae (neu sut nad yw) Chwaraeon Cymru wedi gweithredu'n ddidwyll, ychwanegu gwerth ac annog arloesi yn ei bartneriaeth gyda chi?

07 CWESTIWN RHYDD

Beth yw'r peth mwyaf ydych chi wedi'i ddysgu yn ystod y cyfnod diwethaf a pham?

Mae ymchwil yn dangos, wrth ddatblygu ac adlewyrchu ar ddatganiadau fel y rhain, bod y rhai sy'n eu defnyddio'n gallu esbonio sut beth yw llwyddiant, beth sy'n ei atal a sut ddyldid gweithredu – a'r cyfan mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt hwy. Gallant ddarparu mecanwaith ar gyfer gwneud synnwyr ar y cyd sy'n mynd y tu hwnt i'r farn gul mae manylebau, targedau ac amcanion yn ei chynnig, gan annog pobl i edrych ymhellach a gwrthio ffiniau, mynegi eu hansicrwydd yn gynnar ac yn aml a chynnig her adeiladol i'w gilydd ar yr un pryd.